**Y PWYLLGOR ARCHWILIO**

**AC(2) 05-03(min)**

**COFNODION**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 27 Tachwedd 2003 |
| **Amser:** | 9.30am tan 12.40pm |
| **Lleoliad:** | Ystafelloedd Pwyllgora 3 a 4, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bae Caerdydd |

| | |
|---|---|
| **Yr Aelodau** | **Yn bresennol** |
| Janet Davies (Cadeirydd) | Gorllewin De Cymru |
| Leighton Andrews | Rhondda |
| Alun Cairns | Gorllewin De Cymru |
| Jocelyn Davies | Dwyrain De Cymru |
| Christine Gwyther | Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro (nid ar gyfer eitemau 1 a 2) |
| Denise Idris-Jones | Conwy (nid ar gyfer eitemau 3-5) |
| Val Lloyd | Dwyrain Abertawe |
| Mark Isherwood | Gogledd Cymru |
| **Tystion** | |
| Syr Jon Shortridge | Ysgrifennydd Parhaol a Phrif Swyddog Cyfrifo Cynulliad Cenedlaethol Cymru |
| David Richards | Prif Swyddog Cyllid, Cynulliad Cenedlaethol Cymru |
| Gareth Jones | Cyfarwyddwr Adran yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad |
| Clive Alexander | Pennaeth Is-adran Rheoli'r CAP |
| **Swyddogion:** | |
| Syr John Bourn | Archwilydd Cyffredinol Cymru |
| Lew Hughes | Dirprwy Archwilydd Cyffredinol Cymru |
| Gillian Body | Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol |
| Mike Usher | Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol |
| Ceri Thomas | Swyddfa Gydymffurfiaeth y Cynulliad |
| **Ysgrifenyddiaeth** | |
| Adrian Crompton | Clerc y Pwyllgor |
| Liz Wilkinson | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |

**Eitem 1: Cyflwyniadau, ymddiheuriadau, dirprwyon a datganiadau buddiant.**

1.1 Cafwyd ymddiheuriadau gan Mick Bates a Carl Sargeant. Ni fyddai Christine Gwyther yn bresennol ar gyfer eitem 2, yn unol â Rheol Sefydlog 12.7.

**Eitem 2: Taliadau Hwyr i Ffermwyr yng Nghymru**

**Papur:** AC(2) 05-03(p1)

2.1 Cymerodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Syr Jon Shortridge, Ysgrifennydd Parhaol, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, David Richards, y Prif Swyddog Cyllid, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Gareth Jones, Cyfarwyddwr Adran yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad, Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Clive Alexander, Pennaeth Is-adran Rheoli'r CAP, Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gysylltiedig â'r adroddiad gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru ar y 'Taliadau Hwyr i Ffermwyr yng Nghymru'.

2.2 Bydd trawsgript gair-am-air o Eitem 2 yn Atodiad 1 y cofnodion.

***Torrodd y Pwyllgor am 11:46 tan 12:01.***

**Eitem 3: Ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i adroddiadau'r Pwyllgor Archwilio, 'Rheoli Ystâd Addysg Bellach yng Nghymru' a 'Caffael Meddyginiaethau Gofal Sylfaenol':** AC(2) 05-03 (p2), AC(2) 05-03(p3), AC(2) 05-03(p4) a AC(2) 05-03(p5)

3.1 Fe wnaeth y Pwyllgor ystyried a derbyn y ddau ymateb gan Lywodraeth Cynulliad Cymru heb argymell unrhyw gamau gweithredu pellach.

3.2 Dywedodd Archwilydd Cyffredinol Cymru y byddai'n rhoi gwybod i'r Pwyllgor pe bai ei argymhellion ar gaffael meddyginiaethau gofal sylfaenol yn peidio â chael eu gweithredu'n briodol.

**Eitem 4: Cofnodion y cyfarfod diwethaf**

**Papur:**AC(2) 04-03(min)

4.1 Cymeradwyodd y Pwyllgor gofnodion y cyfarfod diwethaf.

**Eitem 5: SESIWN BREIFAT - Adroddiadau drafft y Pwyllgor Archwilio ar 'Reoli a Darparu Gwasanaethau Glanhau Ysbytai yng Nghymru' ac 'ELWa/Cyngor Cenedlaethol Addysg a Hyfforddiant Cymru: Rheolaeth Ariannol Partneriaethau a Phrosiectau Arloesi a Datblygu'**

**Papur:** AC(2) 05-03(p6) ac AC(2) 05-03(p7)

5.1 Penderfynodd y pwyllgor wahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod yn unol â Rheol Sefydlog 8.21

(vi).

5.2 Ystyriodd a chymeradwyodd y Pwyllgor y ddau adroddiad drafft, ar yr amod bod nodyn yn cael ei ychwanegu gan Archwilydd Cyffredinol Cymru ar rôl a chyfrifoldebau Swyddogion Cyfrifo'r Cyrff a Noddir gan y Cynulliad ac y cytunir ar welliannau y tu allan i'r Pwyllgor.

5.3 Cytunwyd y byddai Aelodau'r Pwyllgor yn cael gwybod ymlaen llaw am ddyddiadau cyhoeddi adroddiadau.

5.4 Daeth y cyfarfod i ben am 12:41.

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgorau**

**Rhagfyr 2003**